

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Canolfan Iechyd Crucywel
Dyddiad y gweithgarwch: 19 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mehefin 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Iechyd Crucywel (y practis) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cwmpasu ardal Crucywel a'r pentrefi cyfagos mor bell â'r Fenni yn y De-orllewin a Thal-y-bont yn y Gogledd-ddwyrain. Mae saith partner meddyg teulu ac un meddyg teulu cyflogedig, ac mae pob un ohonynt yn gweithio'n rhan amser ac yn cynnal 47 o sesiynau bob wythnos.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd ac arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis, a gefnogwyd gan uwchbartner, ar 19 Mai 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau yn wyneb COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys yr archwiliad / asesiadau risg amgylcheddol diweddaraf. Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dyweddodd rheolwr y practis ei fod yn cyflogi sefydliad allanol i gael cyngor busnes diogel a hyfforddiant. Mae'n cynnal Archwiliad Iechyd a Diogelwch blynyddol drwy ymweld â'r ddwy feddygfa. Mae hefyd yn darparu dashfwrdd i fonitro adolygiadau ac archwiliadau. Cafodd y staff â chyfrifoldeb yn y practis eu hatgoffa drwy negeseuon e-bost pan oedd angen cwblhau tasg. Anfonwyd adborth rheolaidd at y rheolwr iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau bod popeth yn gyfredol. Roedd yn darparu deunydd hyfforddiant ac yn helpu wrth lunio asesiad risg. Roedd hyn yn galluogi'r practis i ddatgan amgylchedd diogel o ran COVID-19, ac yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ganllawiau iechyd a diogelwch. Cawsom amrywiaeth o asesiadau risg wedi'u cwblhau a'r camau a gymerwyd i ddatrys unrhyw broblemau a nodwyd.

Disgrifiodd rheolwr y practis y newidiadau a wnaed ers dechrau'r pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngu ar fynediad i'r practis a chyflwyno agorfa i ddsbarthu meddyginiaeth. Newidiwyd yr ystafell ffisiotherapi, yr oedd ganddi ddrws allanol, i ystafell COVID-19 lle gwelwyd cleifion yr amheuir eu bod wedi'u heintio â COVID-19. Yn ogystal, gosodwyd drws awtomatig arall (yn ychwanegol at y prif ddrws ffyrynt) yng nghefn yr adeilad i'w ddefnyddio fel yr allanfa. Defnyddiwyd y feddygfa gangen yng Ngilwern ar gyfer amrywiaeth o glinigau, megis imiwneiddio plant, archwilio babanod ac anghenion atal cenhedlu. Roedd yn ofynnol i gleifion aros y tu allan i gael cymryd eu tymheredd, ac roedd yn ofynnol iddynt wisgo masg. Unwaith y cânt ddod i mewn, byddent yn gweld yr ymarferydd perthnasol cyn gadael drwy'r drws cefn.

Dyweddwyd wrthym hefyd fod arwyddion cadw pellter cymdeithasol ac nid oedd y cleifion yn cael eistedd yn yr ystafell aros i ddechrau. Erbyn hyn, gall y cleifion eistedd wrth aros i gael eu gweld, a hynny ar feinciau sefydlog gyda thâp melyn a du i ynysu rhai seddi er mwyn sicrhau eu bod yn cadw pellter cymdeithasol. Tynnwyd y carpedi ac mae'r lloriau bellach yn cael eu sychu'n lân, a gosodwyd rhanwyr hefyd. Roedd gorsafoedd golchi dwylo gyda geliau diheintio wrth fynd i mewn a gadael yr adeilad, yn ogystal ag yn y coridorau. Rhoddwyd mesurau glanhau ychwanegol ar waith hefyd.

Disgrifiodd rheolwr y practis yr amrywiaeth o newidiadau a wnaed er mwyn sicrhau bod

amrywiaeth o glinigau'n cael eu darparu. Roedd clinigau ar gyfer y pigiad B12¹ yn cael eu darparu drwy ffenest y car yn y maes parcio. Roedd y cleifion yn gallu darparu gwybodaeth ar-lein drwy wefan y practis ar gyfer y clinig asthma. Adolygwyd yr ymatebion a roddwyd gan y cleifion asthma gan nyrs yn y practis. Cafodd mân lawdriniaethau eu canslo hefyd i ddechrau yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd, ond mae'r rhain bellach wedi'u haildechrau yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn gallu cael apwyntiadau gyda'r clinigydd priodol drwy gydol y pandemig yn dilyn gwasanaeth brysbennu gan nyrs neu feddyg teulu.

Dyweddodd rheolwr y practis wrthym fod y practis yn cynnal nifer o chwiliadau ar ei gronfeydd data i nodi cleifion agored i niwed, yn ogystal â'r rheini sy'n gwarchod. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi gallu ychwanegu rhai o'i gleifion at y rhestr warchod yn dilyn y chwiliadau hyn. Byddai'r staff yn ymweld â chartref y cleifion gan wisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol, lle bo angen. Fel arall byddent yn cysylltu â'r claf drwy alwad fideo, os bydd angen.

Dywedwyd wrthym fod systemau ar waith er mwyn galluogi'r cleifion hynny nad oes ganddynt dechnoleg ddigidol, gan gynnwys cleifion agored i niwed, cleifion byddar a chleifion na allent ddeall Saesneg, i gysylltu â'r practis. Rhoddwyd rhif ffôn uniongyrchol i gartrefi gofal er mwyn iddynt ffonio'r practis. Cafodd meddyg teulu ei ddyrannu i bob cartref gofal ac roedd rowndiau ward wythnosol rhithwir gyda'r cartrefi. Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd asesiadau risg ar gyfer pob meddyg teulu er mwyn sicrhau eu bod yn wynebu risg is, a hynny i'w galluogi i ymweld â'r cartrefi, gan gymryd y rhagofalon perthnasol o ran PPE. Cwblhawyd asesiadau risg gan bob aelod o'r staff hefyd, a fyddai wedyn yn cael eu hasesu gan y meddyg teulu. Dywedwyd wrthym y rhoddwyd trefniadau priodol ar waith ar gyfer y staff a oedd yn wynebu risg uwch o ddal COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau y gwnaethom eu hadolygu roedd:

- Polisiau rheoli heintiau a pholisiau penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Amserlenni glanhau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

¹ Mae'r driniaeth ar gyfer anemia diffyg ffolad neu fitamin B12 yn dibynnu ar yr hyn sy'n achosi'r cyflwr. Gellir trin y rhan fwyaf o bobl yn hawdd drwy roi pigladau neu dabledi i adfer fitaminau coll. Caiff anemia diffyg fitamin B12 ei drin fel arfer drwy roi pigladau fitamin B12.

Disgrifiwyd profiad y practis o gael gafael ar PPE ar ddechrau'r pandemig. Roedd problemau i ddechrau, yn bennaf yn ymwneud ag ansawdd y PPE. Fodd bynnag, cafwyd digon o PPE er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael eu harchwilio a'u trin yn ddiogel, ac er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu diogelu'n ddigonol.

Dywedwyd wrthym fod aelod o'r staff clinigol yn hyfforddi ac yn asesu'r staff ar ddefnyddio PPE yn gywir. At hynny, roedd y brif nyrs yn rhoi mesurau atal a rheoli heintiau amrywiol ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion. Roedd y staff hefyd yn cael hyfforddiant gloywi ar olchi dwylo. Disgrifiwyd yr hyfforddiant ychwanegol a roddwyd, er mwyn cefnogi'r staff i roi gofal diogel ac effeithiol yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrthym fod y practis bellach yn rhan o raglen frechu COVID-19 ac, o ganlyniad, roedd yn ofynnol i'r staff gwblhau hyfforddiant ychwanegol. Roedd yr aelodau perthnasol o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddadebru² ac anaffylaxis³ - roedd yn rhaid i'r staff fod yn gymwys wrth gwblhau'r hyfforddiant hwn, cyn rhoi'r brechiad. Cawsom yr hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a gwblhawyd gan y staff, ac roedd hyn i gyd yn gyfredol.

Gwelsom amserlenni glanhau'r practis a dywedwyd wrthym am drefniadau glanhau ychwanegol y practis. Roedd y rhain yn cynnwys yr ystafelloedd clinigol yn cael eu glanhau ar ôl pob claf a'r ardaloedd cyffredin yn cael eu glanhau bob awr. Rhoddwyd hefyd gopiâu inni o'r archwiliad glanhau a gynhaliwyd gan y glanhawyr dan gontract ynghyd â'r camau a gymerwyd yn dilyn yr archwiliad hwn.

Disgrifiodd yr uwch-bartner y mesurau atal a rheoli heintiau a gymerir pan fydd y staff yn ymweld â'r cleifion yn y gymuned, megis cartrefi gofal ac ymweld â chartrefi. Roedd y staff yn cwblhau profion llif unffordd er mwyn ceisio sicrhau diogelwch y cleifion a'u perthnasau cyn yr ymweliad. Cofnodwyd hanes meddygol y claf cyn yr ymweliad er mwyn sicrhau y treulir cyn lleied o amser ag sydd ei angen gyda'r claf. Gwnaed nodiadau clinigol yn ôl-weithredol. Gofynnwyd i gartrefi wella systemau awyru yn y lleoliad ar gyfer yr ymweliad. Roedd gan y staff PPE priodol i ddiogelu eu hunain a'r claf yn ystod yr ymweliad.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi atal a rheoli heintiau'r practis. Diben y ddogfen hon oedd sicrhau bod y practis yn parhau i fod yn ymrwymedig i atal haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac mai diogelwch y cleifion oedd y brif flaenoriaeth. Cawsom hefyd gopi o'r polisi a elwir yn Gweithio yn y POD. Pan ddechreuodd COVID-19 ac nad oedd y risgiau'n hysbys, newidiodd y practis i ymgynghoriadau dros ffôn yn bennaf. Fodd bynnag, roedd angen gweld rhai cleifion o hyd naill ai oherwydd anhwylder cyffredinol neu achos posibl o COVID-19. Felly, datblygwyd lle mwy diogel i weld cleifion, sef y Pod. Crëwyd y Pod yn yr adran ffisiotherapi gan ei fod yn ofod mwy o faint, gyda system awyru dda ac roedd ar ochr y feddygfa gyda mynediad ar wahân i'r maes parcio. I ddechrau, roedd meddygon teulu yn gweld y cleifion yn y Pod, yna

² y weithred neu broses o adfywio rhywun o anymwybyddiaeth neu farwolaeth ymddangosiadol

³Mae anaffylaxis yn ganlyniad i'r system imiwneidd, sef system amddiffyn naturiol y corff, yn gorymateb i sbardun. Mae hyn yn aml yn rhywbeth y mae gennych alergedd iddo, ond nid bob amser. Mae sbardunau anaffylaxis cyffredin yn cynnwys y canlynol: bwydydd - gan gynnwys cnau, llaeth, pysgod, pysgod cregyn, wyau a rhai ffrwythau.

cafodd pethau eu newid fel y gallai dwy nyrs weithio yno. Fe'u gwahanwyd gan ofod ac roedd llenni untro o amgylch pob gwely.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut yr oeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau y gwnaethom eu hadolygu roedd:

- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymchwilio'n rheolaidd i ba addasiadau y gallai eu gwneud ers dechrau'r pandemig. Ar adeg y gwiriad ansawdd, dim ond ar y diwrnod dan sylw y gallai cleifion wneud apwyntiad - ni chaniateir iddynt drefnu apwyntiadau ymlaen llaw. Fodd bynnag, roedd y practis yn bwriadu caniatáu apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw, yr wythnos yn dilyn yr alwad. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod wedi cadarnhau yn ystod y pandemig fod yn well gan rai o'r cleifion apwyntiad dros y ffôn. Felly, bydd rotas y clinigwyr yn caniatáu cymysgedd o apwyntiadau dros ffôn ac wyneb yn wyneb yn y dyfodol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod rhai aelodau o'r staff yn absennol o'r gwaith yn ystod y pandemig oherwydd salwch yn gysylltiedig â COVID-19 a mathau eraill o salwch. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi prynu nifer o liniaduron ac, o ganlyniad, gallai'r staff weithio gartref. Gellid cyfeirio galwadau i gyfrifiaduron unigol ac roedd pob aelod o'r staff wedi'u hyfforddi i weithio gartref. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod cyfarfodydd wythnosol gyda'r bwrdd iechyd yn ogystal â chyfarfodydd wythnosol â'r pwyllgor rheoli lleol⁴. Roedd rheolwyr practis clystyrau eraill hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ac roedd yn gyfle i gyflwyno unrhyw bwyntiau a thrafod unrhyw broblemau.

O ran y trefniadau clwstwr a oedd ar waith a'r cymorth a oedd ar gael drwy'r trefniadau hyn, dywedwyd wrthym mai cyllid oedd y broblem fwyaf. Fodd bynnag, roedd y clwstwr wedi

⁴ Pwyllgorau lleol sy'n cynrychioli meddygon teulu'r GIG yw pwyllgorau rheoli lleol ac maent yn mynegi eu buddiannau i awdurdodau iechyd y GIG.

sicrhau cyllid o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol⁵, gan ei alluogi i gadw mewn cysylltiad â phobl agored i niwed a'r rhai a oedd yn dioddef o COVID Hir⁶. Dywedwyd wrthym hefyd fod y bwrdd iechyd y darparu cyllid newydd ar ffurf grant i dalu am 50% o gost gwariant cyfalaf, megis lloriau newydd yn yr ystafelloedd triniaeth a drws allanfa newydd. At hynny, gofynnwyd i bob clwstwr ym Mhowys ddefnyddio rhywfaint o gyllid y clystyrau i dalu am dreuliau ychwanegol mewn practisau a grëwyd gan y pandemig.

Dywedodd rheolwr y practis fod dull seiliedig ar gydraddoldeb a hawliau ar waith yn y gwasanaeth cyfan. Gwnaed hyn drwy bolisi'r practis ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â fideo hyfforddiant roedd rhaid i bob aelod o'r staff ei wyllo. Yn ogystal, roedd y practis yn defnyddio pecyn cymorth rheoli ar-lein a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar fwlio ac aflonyddu, a chydraddoldeb ac amrywiaeth, fel gofyniad gorfodol i bob aelod o'r staff. Roedd pwysigrwydd cydraddoldeb hefyd wedi'i gynnwys yn llawlyfr y staff.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol⁷ (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniad wedi cael ei wneud mewn ffordd briodol a sensitif. Roedd y practis yn dilyn y polisi Cymru Gyfan, ac mae'r gwaith papur priodol yn cael ei gwblhau yn y practis, sy'n cynnwys perthnasau a'r cleifion eu hunain.

Rhoddyd tystiolaeth bellach o'r trefniadau clwstwr presennol inni. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ffurfio Cwmni Buddiannau Cymunedol⁸ o'r enw Red Kite Health Solutions yn 2015, er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a llesiant. Dywedwyd wrthym fod y clwstwr yn weithredol iawn, mae'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y mis erbyn hyn. Gwelsom dystiolaeth o adroddiad diweddaraf y cadeirydd ar y clwstwr. Roedd mentrau clwstwr eraill yn cynnwys cyflogi tîm cymorth fferylliaeth, datblygu gwasanaeth Brysbennu gan Nyrsys er mwyn helpu'r meddygon teulu gyda'r llwyth gwaith a gwefan y clwstwr. Lansiwyd y wefan hon ym mhob practis yn y clwstwr a'i nod yw lleihau nifer yr ymwelwyr drwy ddarparu ffyrdd amgen o gysylltu â'r practis, ceisio cyngor a gwybodaeth gan y practis a phartneriaid cysylltiedig. Gwnaethom nodi fod y clwstwr wedi ennill y Wobr Arloesi Clwstwr yng Ngwobrau Mawreddog Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru ar gyfer 2019⁹.

Gwelsom dystiolaeth o'r polisi ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol, o'r enw'r Polisi Rheoli Pandemigau. Nod y polisi oedd galluogi'r practis i gefnogi'r GIG ehangach wrth reoli'r ymateb i unrhyw bandemig yn effeithiol, gan gynnwys COVID-19, fflw neu unrhyw ledaeniad clefyd arall ledled y byd.

⁵Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn dyfarnu arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i gymunedau ledled y DU, gan weithio gyda grwpiau lleol ac elusennau ledled y DU, gan alluogi pobl a chymunedau i ffynnu.

⁶COVID Hir yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio effeithiau COVID-19 sy'n parhau am wythnosau neu fisoedd yn dilyn y salwch cychwynnol.

⁷<https://cydweithrediad.gig.cymru/grwpiau-gweithredu/gofal-diwedd-oes1/dnacpr/>

⁸ Math o gwmni a gyflwynwyd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2005 o dan Ddeddf Cwmnïau 2004 yw cwmni buddiannau cymunedol. Fe'i cynlluniwyd ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n awyddus i ddefnyddio eu helw a'u hasedau er budd cyhoeddus.

⁹ <http://www.wales.nhs.uk/news/51959>

Cawsom gopïau o gofnodion cyfarfodydd misol y tîm staff am y tri mis diwethaf. Dywedodd rheolwr y practis fod cyfarfodydd staff mawr yn anodd yn y cyfnod pan oedd y pandemig ar ei waethaf, gan na allent gyfarfod mewn grwpiau mawr. Roedd y cyfarfodydd yn dangos trafodaethau gan gynnwys clinigau, symud ymlaen, profion llif unffordd a nifer yr ymwelwyr.

Disgrifiodd rheolwr y practis sut roedd y practis yn gallu cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i orïau. Roedd rhai clinigau a ohiriwyd yn flaenorol o ganlyniad i'r pandemig wedi aildechrau erbyn hyn, megis y clinig anadlol, clinig y galon a'r clinig diabetig a gynhelir gan y nyrs berthnasol. Roedd nifer o glinigau hefyd yn cael eu cynnal yn rhithwir. Roedd atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl a therapi galwedigaethol yn parhau drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru.¹⁰ Roedd y practis hefyd yn defnyddio MIND Cymru¹¹, sy'n elusen iechyd meddwl, am fod ganddi gwrselwyr a oedd yn gweithio drwy'r pandemig. O ran atgyfeirio cleifion canser ar frys, dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn cadarnhau'r atgyfeiriad ar ôl tair neu bedair wythnos er mwyn sicrhau ei fod wedi'i roi ar waith. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu rheoli'n glinigol gan y practis wrth iddynt aros am lawdriniaethau, a hynny o ganlyniad i restrau aros hwy.

Roedd y practis yn canmol y trefniadau a'r dulliau cyfathrebu gyda'r gwasanaethau y tu allan i orïau o'r enw SHROPDOC¹². Yn wreiddiol, ar ddechrau'r pandemig, roedd y gwasanaeth hwn yn cefnogi cleifion drwy wasanaeth rheoli ar-lein er mwyn lleihau'r pwysau ar feddygon teulu.

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw effaith ar y trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion. Roedd y practis yn cael crynodebau rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Dywedodd rheolwr y practis a'r uwchbartner mai atgyfeiriadau i ofal eilaidd, gwasanaethau ychwanegol a phrofion gwaed ar gyfer gofal eilaidd oedd y meysydd lle roedd pwysau arnynt. Roeddent yn teimlo eu bod yn cwblhau gwaith ychwanegol ar gyfer gofal eilaidd oherwydd y rhestrau aros hir, a thynnwyd sylw'r bwrdd iechyd at hyn yn ystod y cyfarfodydd wythnosol a ddisgrifir uchod.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

¹⁰ System genedlaethol yng Nghymru yw Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru, ar gyfer rhannu gwybodaeth glinigol, megis atgyfeiriadau, yn electronig, sy'n cyfuno systemau gofal sylfaenol ac eilaidd gan ddefnyddio technoleg y rhyngwyd sy'n gyfarwydd ond hefyd yn ddiogel iawn.

¹¹ Mae MIND yn rhoi cyngor a chymorth i rymuso unrhyw un sy'n dioddef o broblem iechyd meddwl. Mae'r elusen hefyd yn ymgyrchu dros wella gwasanaethau, codi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth.

¹² Cwmni nid er elw yw Shropdoc, a sefydlwyd yn 1996. Rydym yn darparu gwasanaethau meddygol brys i gleifion pan fydd eu meddygfa ar gau ac y mae eu hanghenion yn golygu nad yw'n ddiogel iddynt aros tan y bydd y feddygfa ar agor nesaf. Rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth 111 y GIG er mwyn sicrhau y caiff anghenion iechyd brys eu diwallu cyn gynted â phosibl.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.